# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS IONAWR 2021:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar Zoom (diolch i TT am drefnu) nos Fercher yr 20fed o Ionawr, 2021 am 7 y.h.
Estynwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ynghŷd â Gwenan M Pritchard sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd (CG) ar y Cynllun LleChi, cynllun cymunedol mewn perthynas a'r ymdrech i sicrhau statws Treftadaeth y Byd i ardaloedd chwarelyddol gogledd-orllewin Cymru.

**Cynllun LleChi**
Cafwyd amlinelliad o'r cynllun cymunedol sy'n gysylltiedig a'r cais i UNESCO, mae disgwyl penderfyniad ar hwnnw tua mis Gorffennaf eleni. Mae Llanberis yn un o nifer o ardaloedd chwarelyddol o fewn cynllun Treftadaeth y Byd ac mae'r grwp/pwyllgor lleol a benodwyd ar ôl ymgynghoriad cymunedol yn gweithio ar nifer o gynlluniau. Yn eu plith arddangosfa sylweddol o waith y ffotograffydd Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar a dynnodd luniau o Lanberis fel yr oedd yn datblygu'n bentref diwydiannol. Bydd Y Festri yn trefnu nifer o ddathliadau lleol, Y Ganolfan a thapestri i gofio 800 mlwyddiant adeiladu Castell Dolbadarn a'r Cyngor Cymuned a chofeb neu gerflun i'r chwarelwyr.
Mae'n ddyddiau cynnar o ran y cerflun ond cafwyd trafodaeth fer ar y math o waith celf a leolwyd mewn mannau eraill a'r hyn a fyddai'n bosibl yn Llanberis. Nodwyd fod swm o arian (£2,500) ar gael i gynorthwyo'r cynllun yma ac mae £3,000 eisioes wedi ei addo gan Gwilym Roberts, Caerdydd (yn wreiddiol o Lanberis). Nodwyd bod cyfyngder amser ar y gwariant gan LleChi, ond fod gobaith ymestyn ychydig ar y dyddiad, o'r haf efallai i'r hydref.
Penderfynwyd bod rhaid symud yn fuan i benderfynnu ar leoliad a dyluniad i'r cerflun/cofeb, ac y bydd yn rhaid ystyried sut i godi gweddill yr arian i sicrhau darn o gelf teilwng a parhaol i'r chwarelwyr fu'n llafurio yn chwareli'r fro.

**Cadeirydd ac Is gadeirydd:**
Gan na chynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor oherwydd y pandemig, aethpwyd ati i gadarnhau fod RhaG a BH yn parhau yn Gadeirydd ac Is gadeirydd tan o leia ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Llinos Haf Pritchard, Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Presennoldeb llawn.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau •(gweler Rhif 6).

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 9fed o Ragfyr, 2020 fel rhai cywir a threfnir i'r Cadeirydd eu harwyddo yn y dyddiau nesaf. Cynnig ac eilio: HLJ / KMJ. Ymddiheurodd y Clerc am iddo orfod newid dyddiad.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cynllun Cyfaill:***
Y gwasanaeth yn dal ar gael.
***2. Ffordd A4086 a Llifogydd:***
Er i KMJ gysylltu'n ddiweddar â un o brif swyddogion y CG, chafwyd dim ymateb. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto.
***3. Lampau Stryd:***
Lamp Tangadlas, Nantperis yn dal heb olau.
***4. Coed Nadolig:***
Tynnwyd y goleuadau i lawr yn llanberis a Nant a diolchwyd i'r rhai a fu'n cynorthwyo. Bydd y Clerc yn trefnu i gael gwared a'r coed yn y dyddiau nesaf.
***5. Cae Chwarae Min y Llyn:***
Derbyniwyd cyfraniad o £2,500 tuag at y gwaith oddi wrth gwmni First Hydro, Llanberis, ac roedd y Clerc wedi anfon gair i ddiolch i'r cwmni ar ran y Cyngor. Wedi trafodaeth hir gan ystyried defnydd a chyllid penderfynwyd gadael y gwaith o adnewyddu'r cwrs coed a rhaffau tan y flwyddyn ariannol nesaf yn nechrau Ebrill. Cynnig ac eilio: IH/HLJ.

***6. Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig Gorau:***
Dywedodd KMJ mai tai Dôl Elidir oedd wedi ennill, a'u bod am i'r £100 o wobr i fynd i'r Ysgol Feithrin.
***7. Gosod Tai gan Gwmni Adra:***
Cafwyd ymateb gan gwmni Adra sy'n gyfrifol am dai cymunedol fod y rheolau a'r canllawiau wedi eu dilyn wrth osod tai yn Nôl Eilian. Roedd cwynion wedi bod yn ddiweddar ynglŷn â gosod tai i denantiaid a oedd wedi tarfu ar y rhai oedd yno yn barod. Dyma'r ymateb:

- Mae Adra yn cwblhau nifer o wiriadau gan gynnwys edrych ar ffeil (os yn denant ar hyn o bryd) neu yn cysylltu ag asiantaethau tai eraill / perchenogion preifat i edych yn benodol am unrhyw hanes blaenorol o Ymddygiad Gwrth Cymdeithasol i asesu cyfaddasrwydd eiddo ac hyn cyn gosod unrhyw eiddo.

***8. Baw Ci:***
Adroddwyd bod y broblem baw ci ar gynydd. Awgrymwyd gan HLJ y gellid cofnodi achosion ac engreifftiau o faw ci neu becynnau wedi eu gadael heb eu codi ar Ap gan CG. Soniwyd hefyd fod CG yn defnyddio teledu-cylch-cyfyng (CCTV) lle'r oedd y broblem yn un gyson.

**5 MATERION ERAILL**
***1. Toiledau Cyhoeddus:***
Derbyniodd y Clerc ymddiheurad ar ôl i doilet Maes Padarn gael ei gloi am gyfnod cyn y Nadolig er fod cytundeb rhwng y Cyngor hwn a CG i gadw y tri toiled ar agor trwy'r flwyddyn. Darganfyddwyd fod y toilet ar glo ar ôl i CG gloi y toiled dros y ffordd i'r cae chwarae ar lan y llyn wedi i hwnnw gael ei ddifrodi sawl tro. Yn sgîl hynny anfonwyd at y Clerc i adrodd fod toiled Maes Padarn wedi ei agor yn ei le.
Ar ôl cysylltu a CG cafwyd ar ddeall fod peth dryswch wedi bod ac i doiled Maes Padarn gael ei gau mewn camgymeriad oherwydd newid staff rheoli. Roedd y Clerc wedi egluro fod hyn yn hollol annerbyniol gan fynnu na fyddai unrhyw weithredu fel hyn yn y dyfodol heb yn gyntaf ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned. Atgoffwyd y swyddog fod y Cyngor hwn yn cyfrannu arian sylweddol at gadw'r toiledau i gyd ar agor trwy'r flwyddyn, beth bynnag yr amgylchiadau.
***2. Tai Trem y Chwarel:***
derbyniodd y Clerc gwŷn fod ffyrdd tai Trem y Chwarel heb eu cwblhau. Yn ôl yr achwynwr sy'n byw yno mae'r datblygwr a'r adeiladwr i fod i gwblhau'r ffyrdd i safon cymeradwy cyn i CG eu mabwysiadu a chymryd cyfrifoldeb amdanynt. Hyd yma mae'r datblygwr/adeiladwr yn llaesu dwylo a'r trigolion yn rhwystredig. Rhoddodd y Clerc y trigianydd mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol CG, gan obeithio y byddai hynny yn rhoi sicrwydd pwy oedd ar fai.
***3. Graean a Halen y Gaeaf:***
Diolchodd y Clerc i GE am archwilio holl finiau halen a graean y gymuned ar ei ran. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr. Mae bin neu ddau angen eu llenwi, ac un neu ddau angen eu trwsio. Gofynnwyd i'r Clerc ddilyn hynny a sicrhau bod y biniau'n gyflawn a llawn. Mae angen cael gwared a sbwriel o rai hefyd. Holwyd cyfrifoldeb pwy oedd y biniau ar ffordd Clegir. Addawodd KMJ holi.

**6 MÂN GYMORTHDALIADAU:**
****Datgan Diddordeb Côr Dyffryn Peris - GE, BH, TT.  Clwb Pel-droed - KJ**
Roedd 5 cais am gymorth wedi dod i law. a phenderfynwyd fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Côr Meibion Dyffryn Peris | £500 | Eco'r Wyddfa | £400 |
| Cyfeillion Cae'r Ddôl | £1,200 | Clwb Peldroed Llanberis | £500 |
| Grwp Geidiaid (ag ati) | £300 | | |

**7 GOHEBIAETH:**
Roedd amryw o ebyst a chylchlythyrau ynglŷn a Covid ac roedd un yn cyfeirio hefyd at dwyll ar-lein. Roedd rheini wedi eu hanfon at yr aelodau yn ystod y mis

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ragfyr, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £23,130.52 **Cyfrif Cadw**: £5,365.83
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … … £3,000.00**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/11/2020 a 28/12/2020:**
**CYFANSWM … … £2,650.00**

Cynnig ac eilio: TT / HS.

**9 PRAESEPT A CHYLLIDEB 2021 - 2022:**
***1. Praesept:***
Craffwyd yn fanwl ar y ffigyrau ariannol. Trafodwyd yr arian oedd mewn llaw a gwariant tebygol o hyn i ddiwedd y flwyddyn. Cyflwynwyd ffigyrau gan y Clerc a chyllideb newydd. Yn sgîl penderfynnu dal y gwario'n ôl ar y Cae Chwarae tan y flwyddyn ariannol yn nechrau Ebrill ac er fod angen gwario ar gae pel-droed UEFA a'r cerflun i gofio'r chwarelwyr penderfynwyd na ellid eleni o bob blwyddyn (o gofio'r pandemig) godi mwy na £2,000 ar y Praespt. Penderfynwyd hepgor gwario ar offer cadw'n heini i'r awyr agored a defnyddio arian Cronfa'r Tir, ynghyd ag arbedion eraill o hyn i ddiwedd Mawrth. Yn sgil hynny penderfynwyd ar Braesept o £32,000, cynydd o £2,000.
Mae hynny yn gyfystyr a Treth Band D o £41.62, cynydd o £2.64. Pe bai CG yn newid eu dull o drethu tai haf a thai gwag yna byddai'n gostwng i £40.24 ar gyfer Band, cynydd o £2.50.
Bydd y Clerc erbyn y cyfarfod nesaf yn creu cyllideb newydd ar sail y penderfyniad yma..
***2. Cyflog y Clerc:***
Yn gynharach roedd y Cyngor (yn absenoldeb y Clerc) wedi ystyried cyflog ac amodau gwaith. Gyda chytundeb yr aelodau bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach rhwng y Cadeirydd a HLJ gyda'r bwriad o godi'r cyflog yn unol a'r hyn benderfynwyd.

**10 LLWYBRAU**
Adroddwyd na chafwyd ymateb i ddau lythyr at CG ynglŷn â nifer o faterion llwybrau a drafodwyd.

**11 Y FYNWENT:**
Oherwydd prinder amser, gohiriwyd adolygu prisiau'r Fynwent tan y mis nesa. Atgoffwyd y Clerc fod dau o'r biniau angen caeadau newydd.

**12. ADRODDIADAU ALLANOL:**
**Y Ganolfan:**
Wedi ei hail agor ar ôl y Clo byr oherwydd Covid-19. Ond yn ôl ar gau erbyn hyn.

**13 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf ar Zoom. Nos Fercher 10 Chwefror, 2021 am 7yh.

Materion i'w trafod: Prisiau'r Fynwent, Cofeb y Chwarelwyr.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 10 Chwefror, 2021.